Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llanfair-ym-Muallt
# Heol yr Ysbyty
# Llanfair-ym-Muallt
# Powys
# LD2 3GA

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/05/2017**

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog â ffrwd ddeuol yw Ysgol Gynradd Sirol Llanfair-ym-Muallt ym Mhowys, sy’n gwasanaethu tref Llanfair-ym-Muallt a’r ardal gyfagos. Mae gan yr ysgol 260 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 12 o blant meithrin amser llawn. Mae 10 dosbarth, gan gynnwys wyth dosbarth oedran cymysg. Mae yna bum dosbarth cyfrwng Cymraeg a phum dosbarth cyfrwng Saesneg.

Mae Dosbarth Cymorth Maes Dysgu (DCMD) yn yr ysgol, sy’n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig o ddalgylch yr ysgol uwchradd. Mae gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, ffigur sydd islaw’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae tua 6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn islaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae rhai disgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac mae ychydig iawn ohonynt o gefndir ethnig lleiafrifol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o’r ysgol ym mis Gorffennaf 2011. Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn Ionawr 2016.

Mae’r gyllideb ysgolion unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Llanfair-ym-Muallt yn 2016-2017 yn golygu mai’r gyllideb yw £3,425 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £5,561 a’r isafswm yw £2,960. Mae Ysgol Gynradd Sirol Llanfair-ym-Muallt yn safle 52 o’r 83 ysgol gynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau gwrando cadarn ac maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a disgyblion eraill
- Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn defnyddio'r rhain yn dda wrth weithio ar draws y cwricwlwm
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rheiny yn y dosbarth adnoddau maes dysgu, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau
- Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus, yn ddiogel a saff yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt
- Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- Mae ystod dda o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol yn gwella'r cwricwlwm yn llwyddiannus
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n dda i ddatblygu medrau meddwl disgyblion
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda
- Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol, lle mae bron pob un o'r disgyblion a'r oedolion yn dangos pryder a pharch at ei gilydd

Fodd bynnag:

- Mae gormod o anghysondeb mewn safonau ar draws yr ysgol, a gormod o amrywiad mewn safonau rhwng dosbarthiadau
- Nid yw medrau llawer o ddisgyblion mewn gweithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi'u datblygu'n ddigonol
- Mae presenoldeb cyffredinol yr ysgol wedi ei gosod rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf
- Mae cynllunio ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn anghyson rhwng dosbarthiadau, ac yng nghyfnod allweddol 2, nid yw cynllunio tymor hir a thymor canolig bob amser yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau ar draws holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi gwneud nifer o welliannau allweddol sy'n rhoi cyfeiriad strategol pwrpasol i waith yr ysgol
- Mae'r ysgol wedi aildrefnu a chryfhau ei strwythur staffio yn ddiweddar gan ddyrannu cyfrifoldebau arwain yn glir, ac mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd rhai agweddau ar waith yr ysgol
- Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad presennol yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella
- Mae'r ysgol wedi dechrau casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol addas yn ddiweddar i helpu arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella
- Mae camau gweithredu diweddar mewn cynllunio gwelliant yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella gwaith yr ysgol
- Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid sy'n cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus

Fodd bynnag:

- Nid oes gan rai arweinwyr ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella fel ysgol
- Nid yw rôl y corff llywodraethol o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am ei darpariaeth a'i safonau wedi'i datblygu'n ddigonol
- Ni chynhelir arsylwadau gwersi'n ddigon rheolaidd, nid ydynt yn drylwyr ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i arfarnu ansawdd addysgu a dysgu
- Dros gyfnod nodedig, nid yw'r ysgol wedi sicrhau bod defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael yn cefnogi dysgu'r disgyblion

## Argymhellion

A1 Codi safonau medrau darllen ac ysgrifennu Saesneg disgyblion yn y ffrwd Saesneg a medrau ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith yn y ffrwd Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella safonau medrau llafaredd Cymraeg ail iaith disgyblion a chynyddu defnydd disgyblion o'r iaith y tu allan i wersi Cymraeg

A3 Gwella gallu disgyblion i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A4 Gwella cysondeb ac ansawdd yr addysgu i sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud y cynnydd gorau posibl

A5 Datblygu medrau arwain pob un o'r staff a rôl llywodraethwyr o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am ei deilliannau

A6 Cryfhau medrau arweinwyr ar bob lefel i ddod â mwy o drylwyredd ac atebolrwydd i fonitro gweithgareddau er mwyn gwella ansawdd addysgu a dysgu

A7 Mynd i'r afael â'r mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwneud gwaith o safon briodol o leiaf mewn gwersi ac mewn llyfrau, mae gormod o anghysondeb mewn safonau ar draws yr ysgol. Mae gormod o amrywiad mewn safonau rhwng dosbarthiadau hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn enwedig y rheiny yn y dosbarth adnoddau maes dysgu, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol, er enghraifft wrth holi cwestiynau am waith gan arlunydd lleol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau gwrando da, ac maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a disgyblion eraill. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafaredd mewn Saesneg a Chymraeg mamiaith fel ei gilydd. Siaradant yn hyderus gan wneud defnydd cynyddol o eirfa a strwythurau brawddeg. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, mae diffyg geirfa a chystrawen ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn cyfyngu ar allu rhai disgyblion i ddatblygu eu syniadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar draws y ffrwd Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen mewn Cymraeg mamiaith. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn hyderus a gyda mynegiant. Gall disgyblion mwy abl drafod y plot a'r cymeriadau yn eu llyfrau stori yn fedrus. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn aeddfed am y llyfrau y maent yn eu mwynhau yn y ddwy iaith. Gallant gefnogi eu barn yn dda trwy ddefnyddio gwybodaeth berthnasol o'r testun.

Cynnydd boddhaol yn unig a wna llawer o ddisgyblion yn nosbarthiadau ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn eu darllen Saesneg. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen testunau cyfarwydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn meddu ar wybodaeth ddigon cryf am ffoneg er mwyn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arddulliau gwahanol awduron ac yn dangos tebygrwydd rhwng eu gwaith. At ei gilydd, yn y ddwy ffrwd, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau darllen ar lefel uwch yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen disgyblion yn y ffrwd Saesneg wedi'u datblygu cystal â'r rheiny yn y ffrwd Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn nosbarthiadau ffrwd Gymraeg y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol mewn Cymraeg mamiaith. Maent

yn ffurfio llythrennau'n gywir ac yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml yn llwyddiannus i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o'r blaidd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn amrywio eu brawddegau'n dda i wneud eu hysgrifennu'n ddiddorol i'r darllenydd ac mae disgyblion mwy abl yn gwneud dewisiadau geirfa effeithiol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o *genres* ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o'u cartref. Yn y ffrwd Saesneg, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dechrau ffurfio geiriau syml yn gymwys yn y dosbarth derbyn, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar wneud brechdan jam. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio atalnodi addas, er enghraifft i rannu brawddegau. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o frawddegau syml yn briodol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o Dewi Sant. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ddatblygu ac amrywio brawddegau i wneud eu hysgrifennu'n ddiddorol i'r darllenydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn y ddwy ffrwd yn datblygu dealltwriaeth effeithiol o nodweddion gwahanol arddulliau ysgrifennu, yn defnyddio ystod addas o eirfa, ac yn trefnu eu gwaith yn baragraffau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, maent yn datblygu llawer o'r medrau hyn tuag at ddiwedd y cyfnod allweddol ac nid ydynt yn gwneud cynnydd cynaledig trwy gydol cyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau ysgrifennu'n ddigonol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu taflen am ffynonellau ynni adnewyddadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhif, siâp a thrin data. Gallant gymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth ganfod gwahanol onglau yn yr ardal y tu allan. Fodd bynnag, mae safonau rhifedd a rhesymu yn gryfach yn y ffrwd Gymraeg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd. Defnyddiant eu dealltwriaeth o'r medrau hyn yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo pris cyfartalog defaid dros gyfnod o bedair blynedd.

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau TGCh. Defnyddiant becynnau data yn dda i gyflwyno gwybodaeth ar graff, er enghraifft wrth greu pictogram o'u hoff ffrwythau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o raglenni i ddatblygu a gwella eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddiant fapio a chynllunio llwybrau yn hyderus i gyfrifo'r pellterau a deithiodd faciwîs o Lerpwl i Lanfair-ym-Muallt yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae llawer o ddisgyblion yn arfarnu ystod eang o feddalwedd yn llwyddiannus i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â pha dechnoleg a meddalwedd sydd fwyaf addas i'w gwaith. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gref o'r angen i fod yn ddiogel ar-lein a pheryglon rhannu gwybodaeth bersonol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu Cymraeg. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol mewn dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn dilyn cyfarwyddiadau sylfaenol yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n gymwys wrth ysgrifennu. Maent yn darllen testunau

cyfarwydd ag ynganiad cywir ac maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw llawer o ddisgyblion yn ddigon hyderus wrth ddefnyddio ystod o batrymau a geirfa wrth siarad mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion o'r awdurdod lleol ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarth arbenigol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 fel ei gilydd, ac mae hyn yn effeithio rhywfaint ar ddata perfformiad yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol islaw'r canolrif yn gyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch na'r disgwyl dros yr un cyfnod fel arfer yn gosod yr ysgol islaw'r canolrif ym mhob un o'r pynciau craidd.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n golygu nad yw cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

Yn gyffredinol, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn mewn llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mewn mathemateg, mae bechgyn yn tueddu i berfformio'n well na merched ar y deilliant uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac ar y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gefnogaeth arnynt. Maent yn hyderus y bydd staff yn delio'n brydlon ag unrhyw bryderon neu achosion sy'n codi. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn deall manteision ymarfer corff a ffordd iach o fyw. Mae llawer ohonynt yn mynychu'r clybiau rygbi a phêl-rwyd ar ôl yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi, amser cinio ac amser chwarae. Maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn dawel ac maent yn foesgar a chwrtais â'i gilydd. Dangosant barch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, ac maent yn dal ati i ganolbwyntio'n dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cyfrannu'n dda mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw medrau llawer o ddisgyblion o ran gweithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gwneud penderfyniadau pwrpasol am eu dysgu. Er enghraifft, maent yn dewis agweddau ar destun y tymor i ddilyn eu trywyddau ymholi eu hunain. Maent yn weithgar iawn yn cefnogi llawer o elusennau, fel Plant mewn Angen a'r Ambiwlans Awyr, sy'n codi eu hymwybyddiaeth am faterion lleol ac ehangach yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol yn effeithiol. Er enghraifft, mae gwaith yr Arweinwyr Digidol mewn addysgu medrau i ddisgyblion eraill ar draws yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion. Mae'r cyngor ysgol yn dechrau cymryd rhan fwy gweithredol ym mywyd yr ysgol, er enghraifft o ran dewis adnoddau ar gyfer y maes chwarae er mwyn gwella mwynhad a chyfranogiad disgyblion mewn gwahanol weithgareddau. Mae hyn wedi gwella'n sylweddol yn ystod amseroedd chwarae. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae ei rôl o ran cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae presenoldeb cyffredinol yr ysgol wedi ei gosod rhwng y 50% is a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na phresenoldeb disgyblion eraill yn gyffredinol. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol. Mae'r cwricwlwm yn y ganolfan cymorth maes dysgu yn mynd i'r afael ag anghenion y disgyblion hynny'n dda iawn. Er enghraifft, mae athrawon a chynorthwywyr cymorth yn cynllunio rhaglenni unigol ysgogol sy'n sicrhau bod pob un o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio testunau a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer datblygu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn anghyson rhwng dosbarthiadau. Mewn dosbarthiadau lle mae'r ddarpariaeth hon yn llai effeithiol, nid yw athrawon bob amser yn darparu cydbwysedd priodol o dasgau wedi'u harwain gan oedolion a rhai sydd wedi'u hysgogi gan blant i blant ddysgu'n annibynnol trwy chwarae sydd wedi'i gynllunio'n ofalus. Mae cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn sicrhau ymdriniaeth briodol â'r holl bynciau. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau tymor hir a thymor canolig bob amser yn ddigon manwl i sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau ar draws yr holl feysydd dysgu neu bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae ystod dda o weithgareddau ac ymweliadau allgyrsiol yn gwella'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio teithiau i gefnogi meysydd astudio yn dda. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r amgueddfa filwrol leol i wella eu gwaith testun.

Mae'r ysgol yn dechrau ymateb yn briodol i ofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer rhifedd yn effeithiol ac yn adeiladu'n gynyddol ar fedrau disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cynllunio ar gyfer llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn anghyson ac nid yw bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu ystod lawn medrau TGCh disgyblion. O ganlyniad, mae medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ar draws yr ysgol.

Ceir darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg' yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy destun yn cymharu hanes Yr Epynt yn y 1940au â Thryweryn yn y 1960au.

Ceir darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd a materion amgylcheddol yn yr ysgol, er enghraifft ble mae'r ysgol a'r ysgol uwchradd leol yn cynnal arolwg o'r tir er mwyn cynllunio newidiadau i gynyddu poblogaeth peillyddion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r byd ehangach, er enghraifft wrth astudio masnach deg. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd rhoi pris teg am gynnyrch.

**Addysgu: Digonol**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol briodol ac maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Gwnânt ddefnydd da o holi i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon a staff cymorth yn gorgyfarwyddo'r dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i weithio'n annibynnol. Mae bron pob un o'r athrawon yn creu amgylchedd dysgu tawel ar gyfer disgyblion ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda.

Mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, ble mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn darparu cyd-destunau ysgogol ar gyfer dysgu ac yn defnyddio adnoddau'n dda i ennyn diddordeb disgyblion yn llawn yn eu dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae athrawon yn trefnu a strwythuro gwersi'n effeithiol ac yn eu cynnal ar gyflymdra bywiog. Ar draws yr ysgol, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio tasgau'n ddigon da i weddu i anghenion disgyblion o wahanol alluoedd. Nid ydynt yn darparu digon o her ar gyfer disgyblion mwy abl yn gyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion sy'n fwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Yn gyffredinol, mae defnydd athrawon o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol. Maent yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda disgyblion. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod beth maent yn ei ddysgu a sut i lwyddo yn eu gwaith. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi sicrhau bod adborth ysgrifenedig i ddisgyblion ar draws yr ysgol yn fwy cyson. O ganlyniad, mewn llawer o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn dechrau ymateb i adborth i wneud gwelliannau yn eu gwaith. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr wedi cyflwyno system olrhain electronig newydd. Er bod y system yn ei dyddiau cynnar, mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth o hyn yn briodol i gynorthwyo eu cynllunio. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur ei heffeithiolrwydd ar ddeilliannau disgyblion.

Caiff rhieni wybodaeth briodol am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd ar gyflawniadau a chynnydd disgyblion yn yr holl feysydd dysgu a phynciau. O ganlyniad, nid ydynt yn bodloni'r holl ofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglenni teilwredig i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod awyrgylch tawel a threfnus mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae gofal, cymorth ac arweiniad yn nodweddion canolog yn narpariaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn llwyddo i annog disgyblion i ddatblygu synnwyr ar y cyd o werthoedd, gan gynnwys parch at bobl eraill.

Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn annog disgyblion i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a bod yn weithgar ar yr iard. Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu haddasrwydd, er enghraifft trwy wasanaethau myfyriol ac astudiaethau ystyrlon o grefyddau'r byd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o ystod eang o asiantaethau arbenigol ac arbenigedd yn yr ysgol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am sut i gadw'n iach a diogel, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae athrawon yn nodi anghenion dysgu disgyblion yn gynnar ac yn rhoi cymorth buddiol iddynt. Mae staff cymorth hyfforddedig yn gwneud cyfraniad gwerth chweil at fodloni anghenion dysgu disgyblion trwy ddarparu ystod o raglenni ymyrraeth effeithiol. Mae athrawon anghenion addysgol arbennig yn gwneud defnydd effeithiol o ddata asesu i fesur cynnydd disgyblion ac addasu cymorth yn briodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni eu targedau. Mae athrawon yn cynnwys rhieni a disgyblion yn effeithiol yn y broses o osod ac adolygu cynlluniau addysg unigol. Mae rhaglenni a chymorth wedi'u cynllunio'n ofalus iawn yn sicrhau bod disgyblion yn y dosbarth cymorth maes dysgu yn gwneud cynnydd gwerth chweil o'u man cychwyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fodd bynnag, tynnodd arolygwyr sylw'r pennaeth a'r corff llywodraethol at fater iechyd a diogelwch yn ystod yr arolygiad.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol, lle mae bron pob un o'r disgyblion a'r oedolion yn dangos parch at ei gilydd. Caiff disgyblion yr un cyfle i elwa ar holl feysydd y cwricwlwm a bywyd ysgol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu penodol sy'n mynychu'r dosbarth cymorth dysgu.

Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal yn dda, ac maent yn ddiogel a saff ar y cyfan. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r ardal dan do i gefnogi dysgu disgyblion yn

effeithiol. Ceir arddangosfeydd deniadol yn yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd dosbarth. Mae'r rhain yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn fuddiol ac yn dathlu eu gwaith yn dda. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n dda i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn adnoddau yn ddiweddar i wella caledwedd ar gyfer TGCh. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu safonau TGCh disgyblion ymhellach. Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu ei thir helaeth yn bwrpasol i hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr weledigaeth glir ar y cyd ar gyfer yr ysgol, ble caiff yr holl staff a disgyblion eu gwerthfawrogi a'u parchu. Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi gwneud nifer o argymhellion allweddol i'r ysgol sy'n rhoi cyfeiriad strategol pwrpasol i'w gwaith. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i fynd i'r afael â materion fel gwella ymddygiad, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar les. Mae'r pennaeth wedi rhoi cynlluniau priodol ar waith i godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd a gwella asesu a darpariaeth ar draws yr ysgol. Mae'r rhain wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar rai meysydd dysgu, er enghraifft o ran datblygu medrau rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'n ddyddiau cymharol gynnar o ran datblygu'r cynlluniau hyn ac nid ydynt yn gyson ar draws yr holl feysydd addysgu a dysgu eto.

Mae'r ysgol wedi ad-drefnu a chryfhau ei strwythur staffio yn ddiweddar. Mae hyn bellach yn cynnwys dyraniad clir o gyfrifoldebau arwain ar gyfer yr holl feysydd dysgu. Er bod y rolau arwain hyn yn gymharol newydd, maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd rhai agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft wrth wella strategaethau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes gan rai arweinwyr ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni ac o'r hyn y mae angen iddynt ei wella fel ysgol. Mae swydd-ddisgrifiadau clir a chyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r staff addysgu a'r staff cymorth yn deall eu rolau ac yn eu cyflawni'n gydwybodol.

At ei gilydd, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae mynd i'r afael â llythrennedd ar draws yr ysgol yn llai effeithiol. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn rhoi holl elfennau athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ar waith yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff. Mae targedau'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda ac maent yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, er enghraifft wrth ddatblygu medrau TGCh disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad presennol yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn datblygu gwybodaeth briodol am addysgu a dysgu yn yr ysgol, trwy ymweliadau rheolaidd. Fodd bynnag, mae eu gwybodaeth am ddadansoddi data yn dibynnu'n helaeth ar wybodaeth a ddarperir

gan y pennaeth. Yn ddiweddar, mae pob llywodraethwr wedi mabwysiadu rolau a chyfrifoldebau priodol sy'n gysylltiedig â gwella safonau yn yr ysgol, er enghraifft ar gyfer monitro perfformiad medrau Cymraeg disgyblion. Mae'r rolau hyn yn gweddu'n dda i flaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw rôl y corff llywodraethol o ran dwyn yr ysgol i gyfrif am ei darpariaeth a'i safonau wedi'i datblygu'n ddigonol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol wedi dechrau casglu ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol addas yn ddiweddar i helpu arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae rhaglen fonitro fanwl yn cynnwys teithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac adolygiadau cynllunio. Mae gweithgarwch hunanarfarnu yn dechrau ystyried safbwyntiau disgyblion, er enghraifft ar ystod y dulliau addysgu i ddatblygu ysgrifennu estynedig.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau monitro, gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a gwrando ar ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arsylwadau gwersi'n ddigon rheolaidd, nid ydynt yn drylwyr ac nid ydynt yn rhoi sylw digonol i arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, mae addysgu, darpariaeth a safonau ar draws yr ysgol a rhwng dosbarthiadau yn rhy anghyson. Ers penodi'r pennaeth, mae uwch arweinwyr wedi dechrau defnyddio data perfformiad yn briodol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella, er enghraifft trwy gyflwyno cyfarfodydd cynnydd disgyblion. Mae hyn yn datblygu eu gallu i ddwyn pob un o'r staff i gyfrif am ddarpariaeth a deilliannau disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau hunanarfarnu yn briodol i nodi llawer o flaenoriaethau perthnasol. Mae bron pob un o'r staff yn datblygu dealltwriaeth gliriach o'u rôl yn cyflawni targedau a amlygwyd yng nghynllun gwella'r ysgol. Ceir trefniadau addas i ddyrannu cyllid i gefnogi gwelliannau ac mae hyfforddiant ar gyfer pob aelod o staff wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae camau gweithredu diweddar yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella gwaith yr ysgol, er enghraifft o ran gwella darpariaeth a deilliannau ym medrau rhifedd disgyblion.

Dim ond ers penodi'r pennaeth presennol y mae'r ysgol wedi dechrau gwneud cynnydd addas tuag at fodloni argymhellion yr arolygiad blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid sy'n cefnogi disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhieni a gweithwyr cymunedol yn gwneud cyfraniadau rheolaidd a gwerthfawr at waith yr ysgol, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfeillion darllen o'r gymuned i gefnogi profiadau darllen disgyblion. Yn gynyddol, mae rhieni'n ymgysylltu'n dda â'r ysgol. Er enghraifft, mynychodd llawer o rieni ddiwrnod gwaith paratoi'r pridd i ddatblygu ardaloedd awyr agored yr ysgol er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae ffrindiau'r ysgol yn gefnogol iawn trwy godi arian sylweddol i ddarparu adnoddau ychwanegol, yn enwedig mewn TGCh.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â rhieni newydd a staff yn y lleoliad cyn-ysgol lleol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion iau yn ymgynefino'n hyderus yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn ymgymryd â gweithgareddau pontio rheolaidd gyda'r ysgol uwchradd leol

sy'n cefnogi disgyblion yn dda wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer disgyblion yn y dosbarth cymorth maes dysgu wrth iddynt symud i'w hysgol nesaf yn effeithiol a chefnogol. Er enghraifft, mae athro o'r ysgol uwchradd wedi arsylwi'r dulliau addysgu a ddefnyddir yn y dosbarth cymorth i sicrhau parhad strategaethau rhifedd effeithiol. Mae systemau priodol ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion ar y cyd ag ysgolion lleol eraill. Yn gyffredinol, mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth gadarn wrth lefelu gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â llawer o asiantaethau arbenigol o'r awdurdod lleol, er enghraifft i gefnogi disgyblion ag anghenion arbennig yn effeithiol. Mae'r staff o'r dosbarth cymorth dysgu yn rhannu arfer dda gydag ysgolion ac athrawon eraill o fewn yr awdurdod.

Mae cysylltiadau cryf â'r gymuned leol yn darparu cyfleoedd dysgu gwerth chweil ar gyfer disgyblion. Er enghraifft, mae'r ficer lleol yn ymweld â'r ysgol i drafod dyluniadau disgyblion i greu ffenestr gwydr lliw ar gyfer yr eglwys leol. Mae busnesau lleol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o arferion amaethyddiaeth lleol yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sy'n meddu ar gymwysterau priodol ac ystod ddigonol o adnoddau i gyflwyno'r cwricwlwm yn briodol. Mae'r pennaeth yn defnyddio staff yn gymwys i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn bodloni gofynion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r amser hwn yn ddigon effeithiol i sicrhau cysondeb mewn cynllunio rhwng dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol fel cymuned ddysgu. Mae'r pennaeth yn rhoi ystod effeithiol o gyfleoedd hyfforddi i'r staff sy'n eu galluogi i ddatblygu eu harfer broffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys hyfforddiant i ddefnyddio strategaethau rhifedd ac ysgrifennu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, yn enwedig mewn rhifedd.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi nodi camau gweithredu addas ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, er enghraifft trwy ddatblygu rhaglenni cymorth llythrennedd a rhifedd penodol a therapi chwarae. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau grwpiau o ddysgwyr ac ar gyfer gwella'u lles.

Mae'r pennaeth, aelodau o'r corff llywodraethol a'r awdurdod lleol yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio cyllid yr ysgol ac maent yn cynllunio'n briodol ar gyfer anghenion gwariant sy'n cael eu rhagweld ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, dros gyfnod sylweddol, mae'r ysgol wedi cadw cyfran sylweddol o'i chyllideb. Mae hyn yn golygu nad yw llywodraethwyr wedi sicrhau bod adnoddau sydd ar gael wedi cael eu defnyddio'n briodol er lles yr holl ddisgyblion. Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd cyffredinol y safonau a'r addysgu, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6662089 - BUILTH WELLS C.P. SCHOOL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 262 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 42 | 38 | 37 | 31 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 73.7 | 83.8 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 28 | 21 | 18 | 17 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.3 | 66.7 | 88.9 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 39.3 | 38.1 | 33.3 | 35.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 17 | 19 | 14 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 88.2 | 94.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 21.4 | 17.6 | 26.3 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 38 | 37 | 31 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 76.3 | 86.5 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 13.2 | 32.4 | 45.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 38 | 37 | 31 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 97.4 | 97.3 | 96.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 34.2 | 48.6 | 64.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6662089 - BUILTH WELLS C.P. SCHOOL**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 262 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.6 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 42 | 35 | 46 | 43 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 82.9 | 87.0 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 35 | 46 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 85.7 | 87.0 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.8 | 31.4 | 39.1 | 41.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 11 | 14 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 81.8 | 92.9 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.2 | 18.2 | 42.9 | 35.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 35 | 46 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.5 | 91.4 | 91.3 | 97.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 35.7 | 37.1 | 23.9 | 41.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 42 | 35 | 46 | 43 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 91.4 | 93.5 | 97.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.2 | 37.1 | 28.3 | 44.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 95<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 95<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 94<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 95<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 95<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 93 | 91<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 95 | 95<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 95<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 96 | 87<br>91%<br>90% | 9<br>9%<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 95 | 94<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 95 | 67<br>71%<br>77% | 28<br>29%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 96 | 84<br>88%<br>84% | 12<br>12%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 63 | 26<br>41% | 31<br>49% | 0<br>0% | 4<br>6% | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 63 | 34<br>54% | 26<br>41% | 0<br>0% | 2<br>3% | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 63 | 34<br>54% | 25<br>40% | 3<br>5% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 63 | 27<br>43% | 29<br>46% | 4<br>6% | 2<br>3% | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 62 | 14<br>23% | 38<br>61% | 3<br>5% | 2<br>3% | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 63 | 26<br>41% | 30<br>48% | 3<br>5% | 2<br>3% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 63 | 29<br>46% | 29<br>46% | 2<br>3% | 2<br>3% | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 63 | 9<br>14% | 34<br>54% | 12<br>19% | 3<br>5% | 5 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 61 | 19<br>31% | 34<br>56% | 1<br>2% | 2<br>3% | 5 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 63 | 26<br>41% | 34<br>54% | 1<br>2% | 1<br>2% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 62 | 34<br>55% | 26<br>42% | 0<br>0% | 2<br>3% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 60 | 16<br>27% | 26<br>43% | 1<br>2% | 3<br>5% | 14 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 62 | 13<br>21% | 37<br>60% | 7<br>11% | 4<br>6% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 63 | 30 | 27 | 3 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 48% | 43% | 5% | 5% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 61 | 11 | 31 | 4 | 4 | 11 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 18% | 51% | 7% | 7% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 63 | 17 | 38 | 1 | 2 | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 27% | 60% | 2% | 3% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 60 | 9 | 25 | 3 | 2 | 21 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 15% | 42% | 5% | 3% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 63 | 19 | 36 | 6 | 2 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 30% | 57% | 10% | 3% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 63 | 20 | 33 | 3 | 2 | 5 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 32% | 52% | 5% | 3% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Vanessa Bowen | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Buddug Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Cornelius | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.